TGAU

# CBAC TGAU Cerddoriaeth

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Manyleb

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027

Fersiwn 1b - Mai 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Mae'r fanyleb hon yn bodloni gofynion y dogfennau rheoleiddio canlynol a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru:

- Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TGAU Gwneud i Gymru sy'n nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw gymhwyster TGAU newydd a gymeradwywyd i'w addysgu gyntaf o fis Medi 2025 a thu hwnt.
- Amodau Cydnabod Safonol sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i bob corff dyfarnu a'u cymwysterau eu bodloni wrth gynnig cymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru.
- Meini Prawf Cymeradwyo ar gyfer TGAU Cerddoriaeth sy'n nodi'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer cymwysterau TGAU Cerddoriaeth o fis Medi 2025 a thu hwnt.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 1b | 'Cywiro teitl uned 3 o 'Gwerthuso' i 'Arfarnu' i gyfateb i'r arfer yn y pwnc. | Drwyddi draw |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## CYNNWYS

TGAU CERDDORIAETH ........ 5
CRYNODEB O'R ASESU ........ 5
1 CYFLWYNIAD ........ 7
1.1 Nodau ........ 7
1.2 Cwricwlwm i Gymru ........ 7
1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant ........ 8
1.4 Oriau dysgu dan arweiniad ........ 8
1.5 Defnyddio iaith ........ 9
1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg ........ 9
2 CYNNWYS Y PWNC AC INTEGREIDDIO PROFIADAU DYSGU A SGILIAU ........ 10
Sut i ddarllen yr ymhelaethiad ........ 10
Uned 1 ........ 11
Uned 2 ........ 13
Uned 3 ........ 15
Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu ........ 18
3 ASESU ........ 19
3.1 Amcanion asesu a phwysoli ........ 19
3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad ........ 20
4 CAMYMDDWYN ........ 22
5 GWYBODAETH DECHNEGOL ........ 23
5.1 Cofrestru ........ 23
5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl ........ 23
Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 24
Atodiad B – Rhestr o Dermau Cerddorol ........ 27

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU CERDDORIAETH

# CRYNODEB O'R ASESU

| |
|---|
| **Uned 1: Perfformio**<br>**Asesiad di-arholiad**<br>Perfformiad: 4-6 munud (o leiaf dau ddarn)<br>**Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC**<br><br>**32.5% o’r cymhwyster** **78 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Mae dysgwyr yn perfformio o leiaf **dau** ddarn o gerddoriaeth a chyfanswm yr amser perfformio rhwng 4 a 6 munud (dylai pob darn bara o leiaf 1 munud).<br>Gall dysgwyr ddewis perfformio unawdau neu rannau annibynnol mewn ensembles, neu gyfuniad o'r ddau, yn eu dewis o arddull(iau) cerddoriaeth, heb arweinydd.<br>Gall dysgwyr ddewis perfformio ar unrhyw offeryn neu lais, neu dechnoleg, neu gyfuniad o'r rhain. |
| **Uned 2: Cyfansoddi**<br>**Asesiad Di-arholiad**<br>2 gyfansoddiad (argymhellir cyfanswm o 3-6 munud)<br>Log Adfyfyriol<br>**Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC**<br><br>**32.5% o’r cymhwyster** **78 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Mae dysgwyr yn cyfansoddi **dau** ddarn gwreiddiol o gerddoriaeth yn para rhwng 3 a 6 munud, **un** yn ymateb i friff o'u cynllun eu hunain ac **un** yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC.<br>Mae dysgwyr yn cyflwyno log adfyfyriol yn seiliedig ar y broses o gyfansoddi **naill ai'r** cyfansoddiad mewn ymateb i friff o'u cynllun eu hunain **neu'r** cyfansoddiad yn seiliedig ar y briff a osodwyd gan CBAC. |
| **Uned 3: Arfarnu**<br>Arholiad digidol yn unig: tua 1 awr 30 munud<br>**Wedi'i marcio gan CBAC**<br><br>**35% o'r cymhwyster** **84 marc** |
| **Crynodeb o'r asesu**<br>Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, atebion byr ac estynedig, wrth ymateb i'r gweithiau gosod a ddewiswyd a'r darnau heb eu gweld ymlaen llaw. |

Cymhwyster llinol yw hwn.

Nid yw'n cynnwys haenau.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Uned 1: Perfformio ac Uned 2: Gellid cwblhau'r gwaith Cyfansoddi ar unrhyw bryd yn ystod y cymhwyster a'i gyflwyno i CBAC ym mlwyddyn olaf y cwrs. Rhaid cwblhau Uned 3 yn ystod blwyddyn olaf y cwrs.

Bydd y cymhwyster hwn yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yng nghyfres haf 2027.

Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/4967/7

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# TGAU CERDDORIAETH

## 1 CYFLWYNIAD

### 1.1 Nodau

Mae TGAU Cerddoriaeth yn cefnogi dysgwyr i:

- archwilio cerddoriaeth a grëwyd ac a berfformir gan bobl eraill a datblygu eu doniau cerddorol eu hunain
- ennyn dealltwriaeth o ystod o ffurfiau, arddulliau a genres cerddorol yn ogystal ag elfennau cerddorol
- datblygu gwybodaeth, gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o sut mae ystyr yn cael ei gyfleu trwy gerddoriaeth
- ymateb i gerddoriaeth gan eraill ac adfyfyrio arni, gan gymhwyso gwybodaeth am gyd-destun er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y syniadau a'r technegau a ddefnyddiwyd i gyfleu ystyr
- datblygu sgiliau perfformio/gwireddu i gyfathrebu'n gerddorol a dangos rheolaeth
- datblygu sgiliau creadigol er mwyn defnyddio syniadau cerddorol i gyfleu ystyr
- adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei fireinio a'i werthuso
- archwilio themâu trawsbynciol hawliau dynol ac amrywiaeth, gan gynnwys safbwyntiau, hunaniaeth, diwylliant a chyfraniadau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi'r nodau hyn.

### 1.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn sail i'r cymhwyster TGAU Cerddoriaeth hwn. Cafodd ei lunio er mwyn sicrhau y gall dysgwyr barhau i wneud cynnydd tuag at y pedwar diben gan astudio ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr un pryd. Yn ganolog i hyn mae'r egwyddorion cynnydd, yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r sgiliau a chysyniadau penodol i'r pwnc hynny a amlinellir yn rhan 'Cynllunio eich Cwricwlwm' Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth ddatblygu'r cymhwyster hwn, ystyriwyd lle byddai cyfleoedd i ymgorffori'r themâu trawsgwricwlaidd a chyfleoedd yn ogystal i feithrin sgiliau cyfannol a sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae mapio syml i'w weld yn Atodiad A, a bydd y Canllawiau Addysgu yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi athrawon.

Ystyriwyd hefyd lle gall y cymhwyster greu cyfleoedd i integreiddio'r profiadau dysgu a nodir yn Cyfleoedd i Integreiddio Profiadau Dysgu a Sgiliau ar dudalen 16. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Mae'r cymhwyster TGAU Cerddoriaeth yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig i'r Celfyddydau Mynegiannol[1]:
  - mae **archwilio'r** Celfyddydau Mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol
  - mae **ymateb** ac **adfyfyrio**, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y Celfyddydau Mynegiannol
  - mae **creu** yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

- cefnogi'r egwyddorion cynnydd[2] drwy annog dysgwyr i:
  - archwilio, profi, dehongli, creu ac ymateb i ystyr sy'n gynyddol gymhleth
  - datblygu dysgu cysyniadol sy'n gynyddol soffistigedig
  - gwneud defnydd mwy soffistigedig o sgiliau perthnasol a'r gallu i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau newydd.

- cefnogi'r ystyriaethau pwnc-benodol[3] ar gyfer Cerddoriaeth:
  - drwy'r broses greadigol, gan ganiatáu i ddysgwyr archwilio, ymateb i ysgogiadau a chreu ac adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain. Ar yr un pryd, byddant hefyd yn ymwneud â phrofiadau sy'n gyfoethog ac yn ddilys.

## 1.3 Dysgu blaenorol a dilyniant

Er nad oes gofynion dysgu blaenorol penodol, lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed, gan adeiladu ar y ddealltwriaeth gysyniadol a ddatblygwyd drwy'r hyn a ddysgwyd ganddynt rhwng 3 ac 14 oed.

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cymhwyster yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Cerddoriaeth naill ai ar lefel UG neu ar lefel Safon Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn cynnig cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.4 Oriau dysgu dan arweiniad

Lluniwyd y cymhwyster TGAU Cerddoriaeth i'w gyflwyno dros gyfnod o 120 – 140 o oriau dysgu dan arweiniad. Cafodd y cymhwyster ei lunio'n bennaf fel rhaglen 2 flynedd i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11.

---

[1] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/
[2] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/egwyddorion-cynnydd/
[3] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-celfyddydau-mynegiannol/cynllunio-eich-cwricwlwm/#ystyriaethau-penodol-ar-gyfer-y-maes-hwn

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 1.5 Defnyddio iaith

Wrth i'n dealltwriaeth o amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ddatblygu, mae'n rhaid i'n hiaith ddatblygu hefyd. Drwy ddiweddaru terminoleg, rydym yn adlewyrchu hunaniaethau unigol yn well ac yn meithrin parch a chywirdeb. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod mor benodol â phosibl. Mae'n hanfodol bod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod modd addasu gan fod iaith gynhwysol yn hybu urddas a thegwch. Gan gydnabod y bydd iaith yn parhau i ddatblygu, byddwn yn parhau i fod yn agored i ddiwygiadau pellach i sicrhau y cynrychiolir ac y cefnogir pob unigolyn yn gywir. Bydd CBAC yn rhoi gwybod i ganolfannau am unrhyw ddiwygiadau a bydd y fersiwn diweddaraf o'r fanyleb ar y wefan bob amser.

## 1.6 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i rywedd a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwyr gael mynediad a llwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig benodol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gwneir trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr cymwys fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd ac er mwyn eu galluogi i ddangos eu gwybodaeth a'u sgiliau heb newid gofynion yr asesiad.

Mae gwybodaeth am drefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol i'w cael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk).

Byddwn yn dilyn egwyddorion y ddogfen hon ac felly, o ganlyniad i ddarpariaeth addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 2 CYNNWYS Y PWNC AC INTEGREIDDIO PROFIADAU DYSGU A SGILIAU

Mae'r cymhwyster TGAU Cerddoriaeth hwn yn seiliedig ar astudio a chymhwyso'r elfennau cerddoriaeth a restrir isod:

- dynameg
- ffurf ac adeiledd
- harmoni
- alaw a thraw
- technegau perfformio/cynaniad
- soniaredd/ansawdd
- tempo, rhythm a mesur
- gwead
- cyweiredd.

Caiff yr elfennau hyn eu harchwilio ym mhob un o'r tair uned.

## Sut i ddarllen yr ymhelaethiad

Mae'r ymhelaethiad sydd i'w weld yn y golofn ar y dde, dan y teitl 'Gwybodaeth Bellach' yn defnyddio'r pedwar bonyn canlynol:

- Mae 'Dylai dysgwyr wybod' yn golygu bod gofyn i ddysgwyr alw rhywbeth i gof yn uniongyrchol.
- Mae 'Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o' yn golygu nad oes angen i ddysgwyr ddeall pob agwedd ar y cynnwys dan sylw yn fanwl. Dylai athrawon gyfeirio at y dogfennau Canllawiau Addysgu i gael arweiniad pellach ynghylch y dyfnder a'r ehangder sy'n ofynnol wrth addysgu'r cynnwys hwn.
- Mae 'dylai dysgwyr ddeall' yn cael ei ddefnyddio pan mae angen i ddysgwyr ddangos mwy o ddyfnder na nodi neu alw i gof yn syth. Er enghraifft, gallant gymhwyso gwybodaeth at gyd-destunau cyfarwydd neu anghyfarwydd a gallant syntheseiddio a gwerthuso gwybodaeth at bwrpas penodol.
- Mae 'Dylai dysgwyr allu' yn cael ei ddefnyddio pan fo angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos sgiliau a thechnegau ymarferol yn cael eu cymhwyso.
- Mae 'Mae'n ofynnol i ddysgwyr' yn cael ei ddefnyddio i ddangos gofynion unedau unigol.

Mae 'gan gynnwys' yn golygu bod rhaid addysgu'r cynnwys dan sylw ac y gallai gael ei asesu.

Mae'r geiriau 'er enghraifft' neu 'megis' yn golygu mai arweiniad yn unig yw'r cynnwys dan sylw, a gellid dewis enghreifftiau eraill.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 1

### Perfformio

Asesiad di-arholiad
Perfformiad: 4-6 munud (o leiaf dau ddarn)
Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC
32.5% o'r cymhwyster
78 marc

### Trosolwg

Pwrpas yr uned hon yw:

- caniatáu i ddysgwyr archwilio amrywiaeth o repertoire perfformio a dewis y darnau maen nhw am eu perfformio
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau technegol a pherfformio drwy adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain mewn cylchred barhaus o ymarfer a gwella
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr berfformio'n unigol a/neu'n rhan o ensemble a datblygu'r sgiliau sy'n ofynnol i ddod yn hyfedrus
- datblygu gwydnwch, penderfynoldeb a hyder dysgwyr.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:

- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio a pherfformio amrywiaeth o repertoire, o amrywiol genres a chyfnodau ac yn gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru a'r byd. Gallai hyn gynnwys perfformio gan ddefnyddio unrhyw offeryn, llais neu dechnoleg, fel unawdydd neu'n rhan o ensemble
- **ymateb ac adfyfyrio –** bydd dysgwyr yn cael y cyfle i adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ac ymateb i adborth gan bobl eraill i roi ffocws i'w hymarfer, a fydd yn caniatáu iddynt wella'r perfformiadau y maent yn eu rhoi, gyda chynnydd mewn gallu technegol a chyfathrebu
- **creu –** bydd dysgwyr yn cael y cyfle i gynnwys chwarae'n fyrfyfyr yn eu perfformiadau, a gydag ymarfer, i ddatblygu i fod yn fwy hyfedrus a hyderus yn y sgìl hwn. Wrth brofi'r broses o greu eu perfformiadau terfynol byddant hefyd yn gallu dehongli repertoire mewn ffordd sy'n briodol i'w gallu eu hunain a'r hyn maen nhw'n ei ddewis o ran arddull personol.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Meysydd cynnwys**

| **1.1 Perfformio** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r canlynol:<br>1.1.1 Perfformio cerddoriaeth fel unawdydd a/neu'n rhan o ensemble<br>1.1.2 Cyfathrebu drwy berfformio neu wireddu gan ddangos rheolaeth dechnegol, rhwyddineb a mynegiant<br>1.1.3 Elfennau cerddoriaeth a sut maen nhw'n cael eu cynrychioli yn y gerddoriaeth y maen nhw'n ei pherfformio | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 1.1.1<br>Perfformio cerddoriaeth fel unawdydd a/neu'n rhan o ensemble | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• (ar ôl archwilio amrywiaeth o repertoire perthnasol) perfformio unawdau neu rannau annibynnol mewn ensembles, neu gyfuniad o'r ddau, yn eu dewis o arddull(iau) cerddoriaeth, heb arweinydd.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• berfformio o leiaf **dau** ddarn o gerddoriaeth a chyfanswm yr amser perfformio rhwng 4 a 6 munud. |
| 1.1.2<br>Cyfathrebu drwy berfformio neu wireddu gan ddangos rheolaeth dechnegol, rhwyddineb a mynegiant | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• perfformio cerddoriaeth yn eu dewis arddull(iau) gan ddefnyddio offerynnau, llais neu dechnoleg, gan ddangos rheolaeth dechnegol briodol, rhwyddineb a mynegiant<br>• deall sut i gyfleu cerddoriaeth, yn eu dewis o arddull(iau), gan gynnwys darllen nodiant fel bo'n briodol. |
| 1.1.3<br>Elfennau cerddoriaeth a sut maen nhw'n cael eu cynrychioli yn y gerddoriaeth y maen nhw'n ei pherfformio | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• dangos dealltwriaeth o sut mae elfennau cerddoriaeth yn cael eu defnyddio yn y gerddoriaeth y maen nhw'n ei pherfformio, gan gynnwys dilyn cyfarwyddiadau perfformio. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 2

**Cyfansoddi**

Asesiad di-arholiad
2 gyfansoddiad (argymhellir cyfanswm o 3-6 munud)
Log Adfyfyriol
Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC
32.5% o'r cymhwyster
78 marc

**Trosolwg**

Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu ymwybyddiaeth o'r broses o greu cerddoriaeth wreiddiol
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran hunanwerthuso, mireinio a datblygu eu gwaith eu hunain
- datblygu ymdeimlad o ysgrifennu cerddoriaeth at bwrpas penodol
- caniatáu i ddysgwyr archwilio'r broses o greu cerddoriaeth mewn amrywiaeth o genres ac arddulliau gwahanol, o gyfnodau gwahanol.

Bydd yr uned yn canolbwyntio ar y canlynol:
- **archwilio** – bydd dysgwyr yn cael y cyfle i archwilio amrywiol arddulliau a genres cerddorol sy'n gysylltiedig â gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru a'r byd ac i ddeall sut cafodd y rhain eu creu i gynhyrchu'r bwriad arfaethedig. Byddan nhw'n gallu defnyddio'r dulliau hyn i greu a datblygu eu syniadau eu hunain. Byddan nhw hefyd yn gallu archwilio syniadau drwy chwarae'n fyrfyfyr wrth gyfansoddi
- **ymateb ac adfyfyrio** – bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso a mireinio eu gwaith drwy adfyfyrio. Gallant ddefnyddio adborth gan bobl eraill i greu cynnyrch gorffenedig llwyddiannus
- **creu** – bydd dysgwyr yn creu eu cerddoriaeth wreiddiol eu hunain mewn arddull o'u dewis, a darn i fodloni briff a fydd wedi'i bennu gan CBAC gan ddefnyddio'r technegau y maen nhw wedi'u harchwilio ac adfyfyrio arnynt.

**Meysydd cynnwys**

| **1.2 Cyfansoddi** | |
|---|---|
| Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:<br>1.2.1 Cyfansoddi eu cerddoriaeth eu hunain, mewn arddull o'u dewis ac i friff a osodwyd<br>1.2.2 Rheoli elfennau cerddoriaeth a dyfeisiau cerddorol wrth ddatblygu syniadau<br>1.2.3 Adfyfyrio ar y broses gyfansoddi<br>1.2.4 Gwireddu eu cyfansoddiadau gan ddefnyddio offeryn(nau), llais(lleisiau) a/neu dechnoleg fel bo'n briodol | |
| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
| 1.2.1<br>Cyfansoddi eu cerddoriaeth eu hunain, mewn arddull o'u dewis ac i friff a osodwyd | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• (ar ôl archwilio amrywiaeth o arddulliau a genres cerddorol perthnasol) Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn cyfansoddiadau.<br><br>Mae'n ofynnol i ddysgwyr:<br>• gyfansoddi **dau** ddarn gwreiddiol o gerddoriaeth yn para rhwng 3 a 6 munud, **un** yn ymateb i friff o'u cynllun eu hunain ac **un** yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.2.2<br>Rheoli elfennau cerddoriaeth a dyfeisiau cerddorol wrth ddatblygu syniadau | Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut gellir defnyddio gwybodaeth a gafwyd wrth berfformio ac arfarnu cerddoriaeth i ddatblygu eu cyfansoddiadau. Mae hyn yn cynnwys eu dealltwriaeth o'r canlynol:<br>  • elfennau cerddoriaeth<br>  • ffurfiau a dyfeisiau cerddorol<br>  • arddulliau a genres<br>i gyfleu ystyr a datblygu syniadau yn eu gwaith gwreiddiol eu hunain. |
| 1.2.3<br>Adfyfyrio ar y broses gyfansoddi | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• adfyfyrio ar eu gwaith eu hunain, ei ddadansoddi a'i werthuso<br>• gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd ac effaith eu:<br>  • hymateb i friff a'r cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol<br>  • dewisiadau creadigol, gan gynnwys eu syniadau cychwynnol<br>  • defnydd o elfennau cerddoriaeth i ddatblygu eu syniadau cychwynnol. |
| 1.2.4<br>Gwireddu eu cyfansoddiadau gan ddefnyddio offeryn(nau), llais(lleisiau) a/neu dechnoleg fel bo'n briodol | Dylai dysgwyr ddeall sut i wneud y canlynol:<br>• creu fersiwn sain o'u cyfansoddiadau yn y ffordd fwyaf priodol. Er enghraifft:<br>  • perfformiad byw<br>  • allbwn o feddalwedd cyfrifiadurol.<br>• creu nodiant o'r cyfansoddiadau mewn fformat priodol. Er enghraifft:<br>  • hen nodiant<br>  • dalen ganllaw<br>  • nodiant graffig<br>  • sylwebaeth ysgrifenedig. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Uned 3

### Arfarnu

Arholiad digidol yn unig: tua 1 awr 30 munud
Wedi'i farcio gan CBAC
35% o'r cymhwyster
84 marc

### Trosolwg o'r uned

Pwrpas yr uned hon yw:
- caniatáu i ddysgwyr brofi amrywiaeth o gerddoriaeth o arddulliau/genres a chyfnodau/cyd-destunau cyferbyniol, gan gynnwys cerddoriaeth sydd wedi'i chreu yng Nghymru neu wedi'i hysbrydoli gan Gymru ac a gyfansoddwyd gan ystod amrywiol o gyfansoddwyr gan gynnwys y rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu sgiliau gwrando trosglwyddadwy sy'n seiliedig ar werthfawrogiad o elfennau cerddoriaeth a sut maen nhw'n cael eu defnyddio
- datblygu iaith ddisgrifio a dadansoddi cerddoriaeth
- dangos sgiliau clywedol mewn perthynas â cherddoriaeth gyfarwydd ac anghyfarwydd
- caniatáu i ddysgwyr ddatblygu fel cerddorion creadigol drwy ddealltwriaeth o gerddoriaeth pobl eraill.

Bydd yr uned yn canolbwyntio ar y canlynol:
- **archwilio –** bydd dysgwyr yn cael y cyfle i brofi gwrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth er mwyn dod i ddeall sut mae'r cyfansoddwyr a'r perfformwyr yn creu'r effaith maen nhw'n dymuno ei chael, dweud stori neu gyfleu emosiynau, yn cynnwys drwy'r defnydd o dechnoleg cerddoriaeth
- **ymateb ac adfyfyrio –** bydd dysgwyr yn gallu adnabod y cysylltiadau rhwng gwahanol ddarnau o gerddoriaeth o ran y defnydd o elfennau cerddoriaeth. Gallant ymateb i ba mor effeithiol yw'r rhain mewn arddulliau neu genres cyferbyniol.

### Meysydd cynnwys

**1.3 Arfarnu**

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r meysydd canlynol:
1.3.1 Nodi a disgrifio sut mae elfennau cerddoriaeth yn cael eu cymhwyso mewn gwahanol genres ac arddulliau cerddoriaeth (fel y nodir yn y Rhestr o Dermau Cerddorol - Atodiad B)
1.3.2 Astudio dewis o weithiau gosod yn fanwl o amrywiaeth eang o genres ac arddulliau
1.3.3 Sut mae ystyr yn cael ei gyfleu trwy gerddoriaeth
1.3.4 Sut mae cerddoriaeth yn cael ei nodiannu a'i chrisialu

| Cynnwys | Gwybodaeth bellach |
|---|---|
| 1.3.1<br>Nodi a disgrifio sut mae elfennau cerddoriaeth yn cael eu cymhwyso mewn gwahanol genres ac arddulliau cerddoriaeth (fel y nodir yn y Rhestr o Dermau Cerddorol – Atodiad B) | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• nodi a disgrifio, gan ddefnyddio geirfa gerddorol, sut mae elfennau cerddoriaeth yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ddarnau o gerddoriaeth<br>• nodi a disgrifio sut mae dyfeisiau cerddorol yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o ddarnau sy'n dangos dealltwriaeth o gonfensiynau genre, cyfnod, arddull a chyd-destun fel sy'n briodol<br>• nodi a disgrifio sut mae technoleg cerddoriaeth wedi cael ei defnyddio i greu effeithiau clywedol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.3.2<br>Astudio dewis o weithiau gosod yn fanwl o amrywiaeth eang o genres ac arddulliau | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• nodi a disgrifio, gan ddefnyddio geirfa gerddorol, sut mae elfennau cerddoriaeth yn cael eu defnyddio yn y gweithiau gosod a ddewiswyd<br>• nodi, lleoli a disgrifio'r dyfeisiau cerddorol sy'n cael eu defnyddio gan y cyfansoddwr (cyfansoddwyr) a'r perfformiwr (perfformwyr) yn y gweithiau gosod a ddewiswyd<br>• deall manylion y nodiant sy'n benodol i'r gweithiau gosod a ddewiswyd.<br><br>Bydd canolfannau yn dewis dau ddarn o waith gosod:<br>• un darn o waith gosod o Restr A<br>• un darn o waith gosod o Restr B.<br><br>Dyma'r dewis o destunau:<br>Rhestr A<br>**Concerto ar gyfer Dau Drwmped yn C (symudiad cyntaf)** Antonio Vivaldi<br>**Palladio (allegretto) ar gyfer cerddorfa linynnol** Karl Jenkins<br>**Elizabeth Remembered** Debbie Wiseman<br><br>Rhestr B<br>**Hwyl Ti, Gymru** Fleur de Lys<br>**Chwedl y Ddwy Ddraig** Calan<br>**One Day Like This** Elbow<br>**Burn (Hamilton)** Lin-Manuel Miranda<br>**I Don't Wanna Know** Mared<br>**Sir Duke** Stevie Wonder<br><br>Dylai dysgwyr wybod y canlynol:<br>• cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol y gweithiau gosod a ddewiswyd. |
| 1.3.3<br>Sut mae ystyr yn cael ei gyfleu trwy gerddoriaeth | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• defnyddio geirfa dechnegol i ddisgrifio sut mae elfennau cerddoriaeth yn cael eu defnyddio.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae cyfansoddwyr a pherfformwyr yn defnyddio elfennau cerddoriaeth yn ddisgrifiadol neu er mwyn cyfleu naws. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| | |
|---|---|
| 1.3.4<br>Sut mae cerddoriaeth yn cael ei nodiannu a'i chrisialu | Dylai dysgwyr allu gwneud y canlynol:<br>• darllen nodiant cleff y trebl a chleff y bas mewn amser syml ac amser cyfansawdd mewn cyweiriau mwyaf a lleiaf gyda hyd at bedwar llonnod neu feddalnod<br>• nodiannu traw yng nghleff y trebl a chleff y bas<br>• nodiannu rhythmau amser syml ac amser cyfansawdd.<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y canlynol:<br>• sut mae cerddoriaeth yn cael ei nodiannu a'i chrisialu, gan gynnwys:<br>  ◦ nodiant erwydd<br>  ◦ dalennau canllaw yn dangos piano, gitâr a llinellau lleisiol<br>• rhifau Rhufeinig ar gyfer cordiau I, ii, iii, IV, V a Vi mewn cywair mwyaf a symbolau cordiau cyfoes ar gyfer cordiau mewn cywair mwyaf. Er enghraifft: C, Dm, Em, F, $G^7$ ac Am. |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Cyfleoedd i integreiddio profiadau dysgu

Mae'r cymhwyster TGAU Cerddoriaeth yn creu cyfleoedd i ddatblygu'r profiadau canlynol (ni chaiff y profiadau eu hasesu'n uniongyrchol):

- cael profiad o berfformiad(au) a/neu weithdai proffesiynol, naill ai'n fyw neu drwy ddefnyddio adnoddau digidol, yn cynnwys amrywiaeth o leoliadau
- profiad o recordio a chynhyrchu cerddoriaeth gan ddefnyddio technolegau cyfredol
- datblygu hyder wrth roi a derbyn adborth, hyrwyddo meddwl annibynnol, gwreiddioldeb a gwydnwch creadigol
- cymryd risgiau creadigol a chael profiad o chwarae'n fyrfyfyr fel rhan o'r broses greadigol
- *cymryd rhan mewn rhyw fath o berfformiad cydweithredol
- meithrin ymwybyddiaeth sylfaenol o ystyriaethau moesegol a chyfreithiol fel bo'n briodol.

*Gall dysgwyr ddewis perfformio fel rhan o ensemble yn Uned 1. Fodd bynnag, nid yw'r perfformiad cydweithredol a nodir uchod yn gysylltiedig â'r opsiwn perfformio hwn ac nid yw'n cael ei asesu.

Mae ymhelaethiad pellach ar y cyfleoedd i ddatblygu themâu trawsbynciol, sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol i'w gweld yn Atodiad C. Bydd gwybodaeth bellach i'w chael yn y Canllawiau Addysgu o ran y cyfleoedd y mae'r cymhwyster yn eu cynnig i athrawon/canolfannau integreiddio'r profiadau dysgu hyn wrth gyflwyno'r cymhwyster.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u nodi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Arddangos a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gerddoriaeth

**AA2**
Datblygu a chymhwyso sgiliau perfformio a/neu wireddu

**AA3**
Ystyried, dadansoddi a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill

**AA4**
Creu a datblygu syniadau i gyfleu ystyr mewn cyfansoddiadau

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoliad pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | - | 32.5% | - | - | 32.5% |
| Uned 2 | - | - | 2.5% | 30% | 32.5% |
| Uned 3 | 20% | - | 15% | - | 35% |
| Pwysoliad cyffredinol | **20%** | **32.5%** | **17.5%** | **30%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 3.2 Trosolwg o'r trefniadau ar gyfer asesiad di-arholiad

**Uned 1: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, bydd angen i ddysgwyr:

- berfformio o leiaf **dau** ddarn o gerddoriaeth a bod cyfanswm yr amser perfformio rhwng 4 a 6 munud (dylai pob darn bara am o leiaf 1 munud).

Gall dysgwyr:

- ddewis perfformio unawdau neu rannau annibynnol mewn ensembles, neu gyfuniad o'r ddau, yn eu dewis o arddull(iau) cerddoriaeth, heb arweinydd
- dewis perfformio ar unrhyw offeryn neu lais, neu ddefnyddio technoleg, neu gyfuniad o'r rhain
- dewis cyfeilio iddyn nhw eu hunain
- defnyddio ysgogiad ar gyfer chwarae'n fyrfyfyr
- defnyddio traciau cyfeiliant wedi'u recordio ymlaen llaw, ar yr amod nad ydynt yn cynnwys rhan y dysgwr. Dylid osgoi clic-draciau clywadwy
- cyflwyno hyd at 4 darn i fodloni'r gofyniad amser
- ychwanegu ailadroddiadau at berfformiad os nad ydynt wedi'u marcio, ond dylai'r rhain wneud synnwyr cerddorol
- perfformio rhannau o ddarn neu wneud toriadau os yw'r rhain yn gwneud synnwyr cerddorol.

Gall dysgwyr berfformio ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs TGAU. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 32.5% tuag at y cymhwyster cyffredinol ac mae'r amser addysgu a argymhellir yn 39 awr. Dylai hyn gynnwys archwilio, addysgu a dysgu, ymarfer, perfformio ac adfyfyrio. Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 78 marc.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

**Uned 2: Trosolwg**

Ar gyfer yr asesiad hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr:

- gyfansoddi **dau** ddarn gwreiddiol o gerddoriaeth yn para rhwng 3 a 6 munud, **un** ymateb i friff o'u cynllun eu hunain ac **un** yn ymateb i friff a osodwyd gan CBAC
- cyflwyno log adfyfyriol yn seiliedig ar y broses o gyfansoddi **naill ai'r** cyfansoddiad mewn ymateb i friff o'u cynllun eu hunain, **neu'r** cyfansoddiad yn seiliedig ar y briff a osodwyd gan CBAC.

Gall dysgwyr gyfansoddi ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs TGAU. Fodd bynnag, dylai canolfannau sicrhau bod asesiad yn cael ei gwblhau dim ond pan fydd dysgwyr wedi ymgymryd â'r addysgu a'r dysgu angenrheidiol, ac wedi datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

Mae'r asesiad yn cyfrannu 32.5% tuag at y cymhwyster cyffredinol ac mae'r amser addysgu a argymhellir yn 39 awr. Dylai hyn gynnwys archwilio, addysgu a dysgu, creu ac adfyfyrio. Bydd yr uned yn cael ei marcio allan o gyfanswm o 78 marc.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Bydd y briffiau gosod yn cael eu cyhoeddi ar wefan Porth CBAC yn ystod mis Medi'r flwyddyn gyntaf o astudio.

Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i chymedroli'n allanol gan CBAC.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## 4 CAMYMDDWYN

Cyn dechrau'r cwrs, cyfrifoldeb athrawon yw rhoi gwybod i ymgeiswyr am reoliadau CBAC ynglŷn â chamymddwyn. Rhaid i ymgeiswyr beidio ag ymddwyn yn annheg mewn unrhyw ffordd wrth baratoi gwaith ar gyfer TGAU Cerddoriaeth.

Mae ein Canllaw i atal, adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch camymddwyn.

Rhaid rhoi gwybod i CBAC ar unwaith am bob achos o gamymddwyn posibl neu gamymddwyn gwirioneddol (camymddwyn@cbac.co.uk). Os bydd ymgeiswyr yn camymddwyn, mae'n bosibl y byddant yn cael eu cosbi neu eu diarddel o'r arholiadau.

Ym mhob achos o gamymddwyn, cynghorir canolfannau i ddilyn cyngor llyfryn y CGC Amau Camymddwyn: Polisïau a Gweithdrefnau.

© WJEC CBAC Ltd. 2024

# 5 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 5.1 Cofrestru

Cymhwyster llinol yw hwn y mae'n rhaid sefyll yr holl asesiadau ar ei gyfer ar ddiwedd y cwrs. Gellir cwblhau unedau asesu di-arholiad yn gynharach yn y cwrs ond rhaid eu cyflwyno ar ddiwedd y cwrs.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfres yr haf tan ddiwedd oes y fanyleb hon. Bydd y cyfle asesu cyntaf yn haf 2027.

Gall dysgwr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith.

Gall dysgwyr sy'n ailsefyll uned arholiad drosglwyddo'r marciau a enillwyd ganddynt am yr unedau asesu di-arholiad o'r tro cyntaf y gwnaethant roi cynnig ar y cymhwyster.

Gellir trosglwyddo marciau asesiadau di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb. Os bydd ymgeisydd yn ailsefyll uned asesiad di-arholiad (yn hytrach na throsglwyddo'r marc asesiad di-arholiad blaenorol), y marc newydd fydd yn cyfrif tuag at y radd gyffredinol, hyd yn oed os yw'r marc hwnnw'n is na'r cynnig blaenorol (oni bai bod y marc yn absennol).

Nodir y cod cofrestru isod.

| | **Cod cofrestru** | |
|---|---|---|
| | **Cyfrwng Saesneg** | **Cynfrwng Cymraeg** |
| **CBAC TGAU Cerddoriaeth** | 3630QS | 3630CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 5.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A*-G, ac A* yw'r radd uchaf. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Atodiad A: Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Meysydd Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Themâu Trawsbynciol | | | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | |
| Agwedd cynaliadwyedd Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | ✓ | ✓ | |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hawliau Dynol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Amrywiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith | ✓ | ✓ | ✓ |
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd | | | |
| Gwrando | ✓ | ✓ | ✓ |
| Darllen | ✓ | ✓ | ✓ |
| Siarad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ysgrifennu | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Meysydd Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | | | |
| Datblygu Hyfedredd Mathemategol | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae deall y system rifau yn ein helpu ni i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i wneud casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | | | |
| Cymhwysedd Digidol | | | |
| Dinasyddiaeth | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhyngweithio a Chydweithio | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynhyrchu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Data a Meddwl Cyfrifiannol | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

| Meysydd Cwricwlwm i Gymru | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| Sgiliau Cyfannol | | | |
| Creadigrwydd ac Arloesi | ✓ | ✓ | ✓ |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cynllunio a Threfnu | ✓ | ✓ | ✓ |
| Effeithiolrwydd Personol | ✓ | ✓ | ✓ |

© WJEC CBAC Ltd. 2024

## Atodiad B – Rhestr o Dermau Cerddorol

Mae astudio TGAU Cerddoriaeth yn integreiddio gweithgareddau perfformio, cyfansoddi ac arfarnu ac felly dylai athrawon a dysgwyr ddefnyddio'r termau a roddir isod ym mhob cyd-destun perthnasol.

Bydd hi'n ofynnol i ddysgwyr wybod a deall y termau cerddorol a restrir yn yr eirfa isod a'u defnyddio wrth ymateb i gwestiynau arholiad Uned 3. Dylent hefyd wybod a deall unrhyw dermau ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol â'r gweithiau gosod a ddewiswyd. Dim ond mewn cwestiynau sy'n ymwneud â'r gwaith gosod perthnasol yn arholiad Arfarnu Uned 3 y defnyddir y termau ychwanegol hyn.

*Nid yw'r rhestri ar gyfer Dyfeisiau ac Arddulliau Cerddorol yn gynhwysfawr, a gall canolfannau archwilio dyfeisiau a geir yn yr arddulliau o gerddoriaeth sy'n briodol i'r dysgwyr a'u harchwiliad o gerddoriaeth Cymru a'r Byd.

**Cynaniad**
Staccato
Legato
Wedi'i gynnal/cynaliedig
Acen
Wedi'i lithro
Wedi'i dafodi
Wedi'i wahanu

**Dyfeisiau***
Pedal
Trawsacennu
Dilyniant
Ostinato
Efelychiant
Gwrthdro
Motiff
Datblygiad
Cyfalaw / Desgant
Trawsgyweirio
Drôn
Galw ac Ateb

**Dynameg**
Pianissimo / pp
Piano / p
Mezzo piano / mp
Mezzo forte / mf
Forte / f
Fortissimo / ff
Crescendo / cresc.
Diminuendo / dim.
Sforzando / sfz
Cryf(ach)
Tawel(ach)

**Ffurf ac Adeiledd**
Dwyran / AB
Teiran / ABA'

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Rondo / ABACADA
Miniwét a Thrio
Ailadrodd
Cyferbyniad
Thema ac Amrywiad
Stroffig / AAA
Cân 32 bar / AABA
Blues 12 bar
Ostinato
Pont
Toriad
Lŵp
Motiff
Chwarae'n fyrfyfyr
Pennill
Cytgan
Wythbar canol
Cyn-gytgan
Interliwd
Llenwi
Rhagarweiniad
Diweddglo
Coda
Ríff
Brawddegu (cytbwys / rheolaidd / afreolaidd)

**Harmoni**
Cordiau Sylfaen
Cordiau Eilaidd
Gwrthdroeon
Diatonig / Cyweiraidd / Cyseiniol
Tonydd
Islywydd
Llywydd
7fed atodol
Diweddeb Berffaith
Diweddeb Amherffaith
Diweddeb Amen
Diweddeb Annisgwyl
Dilyniad / dilyniant cordiau
Rhythm harmonig
Drôn
Pedal
Anghyseinedd
Cordiau pŵer

**Alaw**
Anacrwsis / sionc / curiad i fyny
Symudiad cysylltiol / fesul cam
Symudiad digyswllt / naid / onglog
Arpeggio/cord gwasgar
Triadol
Graddfaol (esgynnol / disgynnol)
Traw isel (is)
Traw uchel (uwch)
Cwmpas

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Dilyniant
Efelychiant
Ailadrodd
Ostinato
Cyferbyniad
Leitmotiv
Motiff
Wythfed
Tôn/2il Mwyaf
Hanner tôn / 2il Leiaf
3ydd Mwyaf
3ydd Lleiaf
4ydd Perffaith
5ed Perffaith
6ed Mwyaf
6ed Lleiaf
7fed Mwyaf
7fed Lleiaf
Symudiad cromatig
Pentatonig
Nodau blue
Tril /addurniad/addurn
Cyfalaw
Brawddeg ateb
Thematig
Ffanffer

**Mesur**
Arwydd amser
Mesur newidiol
Rheolaidd
Afreolaidd e.e. 5, 7
4 8
Acen
Syml 2 3 4
4 4 4
Deublyg/Triphlyg/Pedwarplyg
Cyfansawdd 6
8

**Arddulliau Cerddorol***
Traddodiad Clasurol y Gorllewin
Baróc
Clasurol
Rhamantaidd
Cerddoriaeth Siambr
Jazz
Blues
Gospel
Theatr Gerdd/ Sioe Gerdd
Cerddoriaeth Werin Gymreig ac Traddodiadol
Cerdd Dant
Emyn
Cerddoriaeth Ffilm
Roc
Roc a Rôl

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Soul
Hip-hop
Reggae
Baled
Pop
Cerddoriaeth Asiol
Cerddoriaeth ddawns glwb / Cerddoriaeth ddawns electronig (EDM)

**Technegau Perfformio**
Hymian
Sillafog
Melismataidd
Sgat
Vibrato
Falsetto
Belt
Rap
Bît-bocsio
Pizzicato
Arco/â'r bwa
Divisi
Atal dwbl
Tremolo
Ystumiant
Morthwylio
Trawiad ymyl
Bas slap
Bwrlwm drwm
Wedi mudo
Glissando/llithryn
Plygu traw
Wedi'i blycio
Strymian

**Rhythm**
Gwerthoedd nodau a thawnodau cysylltiedig:
Hanner brif
Minim
Crosiet
Cwafer
Hanner cwafer
Dotiog
Trawsacennu
Rhythmau swing
Rhythmau syth
Ar y curiad
Oddi ar y curiad
Ostinato
Tripled
Rhythmau gyrru
Rhythmau dawnsio
Rhythmau roc

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Technoleg**
Wedi'i syntheseiddio/Electronig
Panio
Anghydweddu
Sampl / Samplu
Datsain
Atsain
Wedi'i fwyhau
Autotune
Focodiwr
Peiriant Drymiau
Recordio amldrac
DAW / Gweithfan Sain Digidol
Dilyniannwr
Oediad
Hafalu

**Tempo**
Presto
Vivace
Allegro
Allegretto
Moderato
Andante
Adagio
Lento
Largo
Accelerando / Accel.
Ritardando / Rallentando / Rit. / Rall.
Rubato
Saib *(pause)*
Tempo cyson
BPM
Cyflym(ach)
Araf(ach)

**Gwead**
Monoffonig
Homoffonig
Polyffonig
Gwrthbwyntiol
Gweadau 2, 3 neu 4 rhan
Unsain
Cordiol
Efelychiant
Haenog
Alaw a Chyfeiliant
Cyfalaw
Desgant
Crwn
Canon
Drôn
Bas Alberti
Cordiau ergyd
Bas sy’n cerdded

© WJEC CBAC Ltd. 2024

**Ansawdd**
Offerynnau, Lleisiau a Grwpiau
Llinynnau
Feiolin
Fiola
Sielo
Bas Dwbl
Telyn
Sitar
Chwythbrennau
Recorder
Ffliwt
Obo
Clarinét
Sacsoffon
Baswn
Pres
Trwmped
Cornet
Corn Ffrengig
Trombôn
Tiwba
Offerynnau taro
Timpani
Drwm Bas
Cit drymiau
Drwm gwifrau
Symbal
Triongl
Tambwrîn
Bloc pren
Clafiau
Maracas / offerynnau ysgwyd
Guiro / sgrafell
Clychau gwartheg
Djembe
Tabla
Glockenspiel
Seiloffon
Tiwbglychau
Drymiau Dur / Band Dur
Allweddellau
Piano
Organ
Harpsicord
Syntheseiddydd
Gitâr Acwstig
Gitâr Drydan
Gitâr Fas
Harmonica / Organ Geg
Unawd
Deuawd
Triawd
Soprano
Alto
Tenor

© WJEC CBAC Ltd. 2024

Bas
Lleisiau Cefndir
Côr / Corws
Bît-bocsio
Cerddorfa
Band Pres
Band Mawr / Jazz
Pedwarawd Llinynnol
Basso Continuo
Grŵp pop/roc
Adran rhythm
Acwstig
Unawd
Cyfeiliant

**Cyweiredd**
Mwyaf
Lleiaf
Moddol
Newid cywair
Trawsgyweirio i'r Llywydd, Islywydd a'r Cywair Perthynol Mwyaf/Lleiaf
Pentatonig

© WJEC CBAC Ltd. 2024